WATCYN CLYWEDOG (fl., c. 1630-50), bardd

Enw: Watcyn Clywedog
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David James Bowen

Ceir tua 50 o'i gywyddau mewn llawysgrif yn ogystal â llawer o englynion. Estynnai ei gylch clera dros siroedd Môn, Caernarfon, a Dinbych, ac yr oedd iddo nawdd yn y Berth Ddu, Bodfel, Bodwrdda, Hendre Fawr, Llannor, Llwydiarth, Plas-y-ward, a Saethon. Y mae dros hanner ei waith yn gywyddau marwnad, a chanwyd un o'r rhain i'r cyrnol Richard Bulkeley a laddwyd mewn ymryson cleddyfau ar draeth y Lafan, 19 Chwefror 1649/50. Canodd hefyd i d newydd Dr. John Davies, Mallwyd yn 1630. Dengys ei gywyddau mawl, marwnad, gofyn, cymod, cyngor, a phriodas, fel y ffynnai'r traddodiad nawdd o hyd yn yr ardaloedd hyn.

Awdur

Yr Athro David James Bowen

Ffynonellau

Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 144, 151

Llawysgrifau Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 112, 165

Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru 21

Llawysgrif Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 4

Nantglyn Manuscripts 2, 3

'Y Piser Hir'

NLW MSS 279, 431, 434, 5269, 5272, 6499, 8330

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914)

J. Fisher, *The Cefn Coch MSS. two MSS. of Welsh poetry written principally during the 17th century* (Lerpwl 1899)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734562

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu